**Teitl y Swydd: Partner Datblygu Clybiau x 4**

**Cyflog:** £28,000 – £33,000
**Lleoliad:** Rhanbarthol (gyda chyfrifoldebau cenedlaethol)
**Math o Gytundeb:** Llawnamser
**Yn adrodd i'r:** Arweinydd Cyfleusterau

**Pwrpas y Swydd**

Mae cyfleusterau ffyniannus yn un o golofnau craidd strategaeth newydd ddeinamig Criced Cymru, a ddatblygwyd ar y cyd â Criced Morgannwg i gyd-fynd â'r weledigaeth a rannwn ar gyfer y gêm yng Nghymru. Fel Partner Datblygu Clybiau, byddwch yn chwarae rôl hanfodol yn gwireddu'r weledigaeth hon, gan gynorthwyo clybiau i ddod yn hybiau croesawgar, cynhwysol, cydnerth a chynaliadwy o fewn eu cymunedau.

Mae'r gwaith hwn wrth galon ein hymrwymiad i sicrhau bod **Criced yn Gêm i Bawb**, fel bod pawb yng Nghymru yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r byd criced mewn ffordd sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd sef: **Gyda'n Gilydd, Arwain, Gofalu**.

Bydd y swyddi arbenigol hyn yn canolbwyntio ar alluogi clybiau i ffynnu drwy wella dulliau llywodraethu, sicrhau buddsoddiad, cynnal tiroedd effeithiol a rheoli cyfleusterau, a sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'u dulliau gweithredu. Bydd pob rôl yn cynnwys cyfrifoldeb cenedlaethol dros arwain a datblygu maes arbenigedd penodol ar draws yr holl glybiau sef: Llywodraethu, Buddsoddiad, Rheoli Tiroedd, a Chynaliadwyedd.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Cynorthwyo clybiau criced cymunedol i sicrhau eu bod yn amgylcheddau cydnerth, cynaliadwy a ffyniannus.
- Darparu addysg, cymorth a mynediad at arfer gorau mewn perthynas â dulliau gweithredu a llywodraethu clybiau.
- Cynorthwyo clybiau i ddatblygu cynlluniau busnes a/neu gynlluniau datblygu cadarn sy'n caniatáu twf ac effaith hirdymor.
- Sicrhau bod clybiau'n cydymffurfio â pholisïau diogelu, iechyd a diogelwch, diogelu data, a rheoliadau a pholisïau eraill perthnasol.
- Nodi cyfleoedd i wella a buddsoddi mewn cyfleusterau criced drwy ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chymorth strategol.
- Gweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol (e.e. awdurdodau lleol, arianwyr, Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol eraill, gwirfoddolwyr) i hyrwyddo buddsoddiad a chynaliadwyedd o fewn clybiau a'u cyfleusterau.
- Cynorthwyo clybiau i baratoi ar gyfer buddsoddiad a gwneud cais am ffrydiau ariannu perthnasol.
- Darparu clybiau ag arweiniad ar gynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau eu hôl troed carbon.

- Arwain ar arbenigedd cenedlaethol penodol (Llywodraethu, Buddsoddiad, Rheoli Tiroedd, neu Gynaliadwyedd) a datblygu adnoddau, arweiniad a phartneriaethau i wella'r cymorth yn y maes hwnnw.
- Cyfrannu at strategaethau cenedlaethol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r golofn Clybiau a Chyfleusterau Ffyniannus.
- Cadw cofnodion, dadansoddi data a llunio adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, datblygiad a chanlyniadau clybiau.
- Cadw at yr holl bolisïau mewnol perthnasol, gan gynnwys diogelu, diogelu data a chynaliadwyedd.

**Meysydd Arweinyddiaeth Arbenigol (1 fesul swydd)**

Dylai ymgeiswyr fynegi diddordeb a/neu brofiad yn o leiaf un o'r meysydd arweinyddiaeth arbenigol cenedlaethol canlynol:

- **Llywodraethu:** Dealltwriaeth gadarn o strwythurau clybiau, arfer gorau, cydymffurfio, a datblygu polisïau.
- **Buddsoddiad:** Profiad o wneud cais am gyllid, rheoli grantiau, a helpu sefydliadau i baratoi ar gyfer buddsoddiad.
- **Rheoli Tiroedd:** Gwybodaeth ymarferol a/neu dechnegol o feysydd chwarae, a chynnal a chadw cyfleusterau chwarae.
- **Cynaliadwyedd:** Prawf o ddealltwriaeth o arfer cynaliadwy ym myd chwaraeon a'r gallu i hyrwyddo mentrau amgylcheddol mewn clybiau criced.

**Manyleb y Person**

**Profiad a Gwybodaeth Hanfodol**

- Profiad o gefnogi gwirfoddolwyr o fewn sefydliadau cymunedol neu sefydliadau aelodaeth, gyda ffocws ar ddatblygu busnes neu gynyddu gwerthiant.
- Dealltwriaeth o gynllunio ariannol, dadansoddi cyfrifon a data rhifiadol.
- Profiad o nodi a rheoli risg o fewn lleoliad chwaraeon cymunedol.
- Gwybodaeth o fecanweithiau ariannu a buddsoddiad seilwaith o fewn y trydydd sector.
- Profiad o weithio gyda, neu o fewn awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, neu sefydliadau datblygu trydydd sector.

**Sgiliau a Chymwysterau**

- **Cynllunio a Threfnu –** y gallu i reoli nifer o brosiectau a gweithio o fewn terfynau amser.
- **Gwneud Penderfyniadau –** defnyddio barn gadarn a thystiolaeth i wneud argymhellion.
- **Proffesiynoldeb a Gonestrwydd –** cynnal safonau uchel o ran ymddygiad a moeseg.

- **Adeiladu Perthnasoedd a Rheoli Rhanddeiliaid –** adeiladu ymddiriedaeth â phartneriaid a gwirfoddolwyr amrywiol.
- **Dylanwadu –** ennyn hyder ac ysbrydoli eraill i weithredu, yn fewnol ac yn allanol.
- **Cyfathrebu Ysgrifenedig ac ar Lafar –** clir, difyr ac yn gweddu i'r gynulleidfa.
- **Adrodd a Dadansoddi Data –** olrhain cynnydd, gwerthuso effaith, a gwneud penderfyniadau seiliedig ar ddata.
- Sgiliau TG ardderchog, gan gynnwys Microsoft Office.
- Trwydded yrru DU lawn a defnydd o'ch cerbyd eich hun.
- Mae'r gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol.

**Gofynion Eraill**

- Angerdd ac ysgogiad eithriadol i ddatblygu dulliau blaengar o gefnogi clybiau criced.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth ac arferion anwahaniaethol ym maes cyflogaeth a chwaraeon.
- Dealltwriaeth o'r GDPR, diogelu, a gofynion iechyd a diogelwch.
- Parodrwydd i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys ar nosweithiau a phenwythnosau, i gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau clybiau.
- Mae'r rôl yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â gofynion gweithgareddau rheoledig.